

# Bridgend County Borough Council

## Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr



### CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR – Y GYFARWYDDIAETH GYMUNEDAU – GRŴP DATBLYGU

#### CODI TÂL AM GYNGOR CYN GWNEUD CAIS – NODYN CANLLAWIAU Fersiwn wedi'i diweddarau yn weithredol o **1 Ebrill, 2019**

Mae'r Cyngor wedi gweithredu system talu am gyngor cyn gwneud cais ers mis Ebrill, 2011. Rydym yn annog ac yn croesawu'r cyfle i roi cyngor cyn y caiff cais ei wneud.

Cyflwynodd *Deddf Cynllunio (Cymru) 2015* (6 Gorffennaf, 2015) brosesau newydd ar gyfer y cyfnod cyn gwneud cais a fydd yn allweddol wrth flaenlwytho ceisiadau yn effeithiol.

Cyflwynodd Adran 18 o'r Ddeddf ofyniad statudol newydd ar gyfer Awdurdodau Cynllunio Lleol i ddarparu gwasanaeth cyngor cyn gwneud cais.

Mae'r rheoliadau yn pennu ffi genedlaethol safonol at ddibenion y gwasanaeth statudol cyn gwneud cais a daeth y rhain i rym ar 16 Mawrth, 2016 o dan Rannau 1 a 2 o *Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau, Ceisiadau Tybiedig ac Ymweliadau Safle) (Cymru) (Diwygio) 2016*. Mae'r rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Cynllunio Lleol roi **ymateb ysgrifenedig** i bob ymholiad dilys cyn gwneud cais o fewn 21 diwrnod, oni bai y cytunir ar gyfnod hwy o amser rhwng yr awdurdod a'r ymgeisydd.

**Ni fydd** unrhyw gyngor ysgrifenedig ychwanegol gan Awdurdodau Cynllunio Lleol, na chyfarfodydd/ymweliadau safle â nhw ynghylch ymholiad cyn gwneud cais yn ffurfio rhan o'r gwasanaeth statudol (lefel sylfaenol).

Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn mynd ati i annog Awdurdodau Cynllunio Lleol i ddarparu gwasanaeth cyn gwneud cais mwy cynhwysfawr sy'n rhagori ar y safon ofynnol statudol ac yn cydnabod y gallai hwn fod yn destun tâl yn ôl disgresiwn o dan adran 93 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2003*.

Ein nod yw galluogi a hybu datblygiadau o ansawdd uchel. Rydym wedi adolygu ein trefn o godi tâl am gyngor cyn gwneud cais ac er ein bod wedi cynyddu'r tâl a godir o'i gymharu â lefelau 2011 byddant yn ein galluogi i ddarparu gwasanaeth mwy ymatebol a phroffesiynol a fydd yn lleihau ansicrwydd ac yn hynod o gost effeithlon ar gyfer pobl sy'n paratoi cais cynllunio.

Mabwysiadwyd canllawiau newydd ym mis Mehefin 2016 ac adolygwyd y broses cyn gwneud cais yn ystod hydref 2018. Dyma'r fersiwn wedi'i diweddarau o'r canllawiau a ddaeth i rym ddydd Llun 1 Ebrill, 2019 yn dilyn adroddiad i'r Pwyllgor Rheoli Datblygu.

Mae'r ffioedd hyn yn ychwanegol at y ffioedd sy'n daladwy am gyflwyno ceisiadau. Os byddwch yn gwneud cais ar ôl cael cyngor yr ydych wedi talu amdano, mae'r ffi lawn am gyflwyno cais yn parhau i fod yn daladwy.

Bwriad y cyngor yw eich helpu i ddeall y ffordd orau o fynd ati i gael caniatâd ac i gynnig y dewis o lefel statudol y gwasanaeth neu lefel gwasanaeth anstatudol fwy pwrpasol, hyblyg a chynhwysfawr.

Y prif newidiadau i'r ffordd yr ydym wedi rhoi ein gwasanaeth cyngor cyn gwneud cais yn flaenorol yw:

- system codi tâl deg wedi'i theilwra sy'n berthnasol i fath a maint y datblygiad arfaethedig;
- tâl newydd am gyngor dylunio i ddeiliad tŷ i dalu am amser a chost asesu estyniad domestig ac ati;
- gwasanaeth cyngor pwrpasol a chynhwysfawr sy'n cynnwys y dewis i gynnal cyfarfodydd ac ymweliadau safle; a
- chyfarfod "cwmpasu" cychwynnol am ddim gyda'r datblygwyr ar ddatblygiadau mawr (o hyd at awr) i nodi'r wybodaeth y mae'n ofynnol ei chynnwys gyda chyflwyniad cyn gwneud cais a'r cyfraniad gofynnol gan adrannau eraill o'r Cyngor ac ymgylgoreion eraill megis yr Awdurdod Prifffyrdd a Diogelu'r Cyhoedd ac ati.

Mae buddion sylweddol yn sgil gofyn am ein cyngor oherwydd

- Ei fod yn rhoi cyfle i chi ddeall sut y caiff ein polisïau eu cymhwyso i'ch datblygiad chi.
- Gall nodi ar gam cynnar ym mha feysydd y mae angen cyfraniad arbenigol, er enghraifft am adeiladau rhestredig, coed, tirlunio, sŵn, llifogydd, trafndiaeth, tir wedi'i halogi, ecoleg neu archeoleg.
- Bydd yn eich cynorthwyo wrth baratoi cynigion i'w cyflwyno'n ffurfiol ac os byddwch wedi derbyn ein cyngor yn llawn yn eich cais bydd hynny'n golygu y caiff ei drin yn gyflymach.
- Gallai arwain at leihad yn yr amser y bydd eich cynghorwyr proffesiynol yn gweithio ar gynigion.

**Gallai nodi bod cynnig yn gwbl annerbyniol, gan arbed y gost o fynd ar drywydd cais ffurfiol.**

Mae'n bosibl y gallwch ddod o hyd i'r wybodaeth angenrheidiol ar y tudalennau cynllunio ar ein gwefan [www.bridgend.gov.uk/planning](http://www.bridgend.gov.uk/planning) neu ar wefan y Porth Cynllunio [www.planningportal.gov.uk](http://www.planningportal.gov.uk).

Gall deiliaid tŷ sy'n gobeithio ymestyn eu cartrefi fynd i'n gwefan i sefydlu a oes angen caniatâd cynllunio ai peidio, a gallant hefyd gael gafael ar ein Canllawiau Cynllunio Atodol ar ddatblygiadau i ddeiliaid tŷ. Fodd bynnag, rydym yn cyflwyno tâl newydd am ymateb i ymholiadau ynghylch a yw cynnig yn fath o ddatblygiad a ganiateir neu beidio oherwydd goblygiadau adnoddau darparu'r cyngor hwn.

## **GWASANAETH CYNGOR CYN GWNEUD CAIS STATUDOL LLYWODRAETH CYMRU**

Mae Gwasanaeth Cyngor Cyn Gwneud Cais Statudol Llywodraeth Cymru yn pennu ei bod yn ofynnol i ddatblygwyr gyflwyno **ffurflen ymholiad cyngor cyn gwneud cais wedi'i llenwi** yn cynnwys gwybodaeth am eu cynnig er mwyn i'r Awdurdod Cynllunio Lleol allu ymateb. Yn ofynnol, bydd angen iddynt ddarparu:

- Enw, cyfeiriad a manylion cyswllt
- Disgrifiad o'r cynnig (gan gynnwys manylion unrhyw gynnydd yn arwynebedd y llawr a/neu nifer yr unedau newydd arfaethedig)
- Cyfeiriad y Safle
- Cynllun o'r Lleoliad
- Ffi

Mae'r ffioedd a godir am y gwasanaeth cyn gwneud cais statudol yr un fath ledled Cymru, ond maent yn amrywio yn dibynnu ar faint a graddfa'r datblygiad arfaethedig fel a ganlyn:

- Deiliad tŷ - £25
- Mân ddatblygiad - £250
- Datblygiad sylweddol - £600
- Datblygiad mawr sylweddol - £1000

Mae *Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Diwygio) 2015* yn darparu'r diffiniad canlynol:

“ystyr “cais deiliad tŷ” (“householder application”) yw cais am—

(a) caniatâd cynllunio ar gyfer estyn, gwella neu addasu tŷ annedd mewn ffordd arall, neu ddatblygiad o fewn cwrtil tŷ annedd o'r fath, neu

(b) newid defnydd er mwyn ehangu cwrtil tŷ annedd, at unrhyw ddiben sy'n ategol i fwynhau'r tŷ annedd ond nad yw'n cynnwys—

(i) unrhyw gais arall am newid defnydd,

(ii) cais i godi tŷ annedd, neu

(iii) cais i newid nifer yr anheddau mewn adeilad;”;

Diffinnir datblygiad sylweddol mawr fel datblygiad o fwy na 24 o anheddau, neu 0.99 hectar, neu 1,999 o fetrau sgwâr.

Byddwn yn anfon cydnabyddiaeth atoch o'ch cais am gyngor cyn gwneud cais wedi inni dderbyn ymholiad dilys.

Yn ofynnol, dylai ymgeiswyr ar gyfer datblygiadau deiliaid tŷ ddisgwyl derbyn yr wybodaeth ganlynol yn eu hymateb ysgrifenedig:

- Hanes cynllunio perthnasol y safle
- Polisiâu'r cynllun datblygu perthnasol a ddefnyddir i asesu'r cynnig datblygu
- Canllawiau cynllunio atodol perthnasol (h.y. cynllun, cadwraeth ac ati)
- Unrhyw ystyriaethau cynllunio eraill o bwys
- Asesiad cychwynnol o'r datblygiad arfaethedig

Ar gyfer yr holl gynigion datblygu eraill, bydd ymgeiswyr yn derbyn yr holl wybodaeth a amlinellir uchod, yn ogystal â chyngor o ran a yw'n debygol y gofynnir am gyfraniadau Cytundeb Cyfreithiol Adran 106 a syniad o gwmpas a swm y cyfraniadau hyn.

Heb dalu'r ffi briodol, ni fydd unrhyw reidrwydd ar yr Awdurdod Cynllunio Lleol i dderbyn a phrosesu ffurflen ymholiad cyn gwneud cais.

Trwy'r gwasanaeth anstatudol a gynigir gan yr awdurdod cynllunio lleol yn unig y ceir darparu cyngor ar gyfer ceisiadau am ganiatâd a hysbysiadau am adeiladau rhestredig. Mae Erthygl 4 o *Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Gwasanaethau cyn gwneud cais) (Cymru) 2016* yn pennu bod ceisiadau cymwys yn geisiadau am ganiatâd cynllunio a wneir i awdurdod cynllunio lleol ar gyfer datblygu tir.

# GWASANAETH CYNGOR ANSTATUDOL CBS PEN-Y-BONT AR OGWR CYN GWNEUD CAIS

Byddwn bob amser yn gofyn ichi ysgrifennu atom â manylion eich cynnig os ydych chi'n dymuno inni nodi sylwadau ar adeilad, estyniad, cynllun ac ati penodol.

Ar gyfer **yr holl ymholiadau o dan y gwasanaeth anstatudol** bydd angen i chi anfon y canlynol atom o leiaf:

- Manylion ysgrifenedig y cyfeiriad a'r cynnig;
- Disgrifiad o natur a maint y datblygiad arfaethedig a'r defnydd y tir a'r adeiladau;
- Cynllun o leoliad y safle sy'n nodi'r safle'n glir (i raddfa gydnabyddedig, saeth at y gogledd ac ati);
- Brasluniau yn rhoi manylion y cynnig (i raddfa gydnabyddedig);
- Ffotograffau o'r safle a'r ardal gyfagos, gan roi sylw penodol i unrhyw dai neu ddatblygiadau eraill gerllaw y gallai'ch cynnig effeithio arnynt;
- Manylion cyswllt llawn gan gynnwys rhif ffôn a chyfeiriad e-bost;
- Y ffi briodol – **Ni chaiff yr ymholiad ei gofrestru ar y system ac ni wneir unrhyw waith manwl cyn i'r ffi lawn gael ei thalu;**
- Datganiad Dylunio a Mynediad drafft cychwynnol a/neu Ddatganiad Treftadaeth;
- Trefniadau mynediad a pharcio;
- Mae'n bosibl y bydd angen cynnwys asesiadau ecolegol, tirwedd, halogi'r ddaear, llifogydd a thrafnidiaeth gyda'r hyn a gyflwynir hefyd yn dibynnu ar leoliad, natur a chymhlethdod y datblygiad.

## YR HYN Y BYDDWN NI'N EI WNEUD

Ar ôl derbyn eich ymholiad cychwynnol, byddwn yn penderfynu pa un a oes angen cyngor cyn gwneud cais a pha fath o gyngor fyddai fwyaf addas. Byddwn wedyn yn sicrhau bod y ffi briodol wedi'i thalu. Os nad yw wedi'i thalu, byddwn yn cysylltu â chi i gadarnhau na fyddwn yn prosesu eich ymholiad hyd nes bod y ffi briodol wedi'i thalu.

Pan fydd yn ffi wedi'i thalu, caiff eich ymholiad ei neilltuo i swyddog priodol.

Ein nod fydd ymateb i'ch ymholiad o fewn y cyfnodau ymateb targed yn unol â'r hyn a amlinellir yn y rhestr daliadau. Fodd bynnag, ni allwn warantu y cewch ymateb o fewn y cyfnod amser hwn gan y bydd yn bosibl y byddwn yn aros am ymatebion i ymgynghoriadau ac ati a byddwn yn cysylltu â chi i gytuno ar estyniad i'r amser. Mewn achosion cymhleth iawn, mae'n bosibl y bydd angen rhagor o amser a byddwn yn rhoi gwybod i chi pryd y gallwch ddisgwyl ymateb.

Os nad oes gennym ddigon o wybodaeth i ateb eich ymholiad byddwn yn ysgrifennu atoch drwy lythyr neu neges e-bost, yn nodi pa wybodaeth y mae ei hangen arnom. Os yw'r ymholiad yn berthnasol i gynnig sylweddol bydd y swyddog a neilltuir i'ch ymholiad yn cysylltu â chi i gadarnhau a oes digon o wybodaeth er mwyn darparu cyngor ac, os nad oes, byddwn yn gofyn am wybodaeth ychwanegol. Yn y naill achos neu'r llall, byddwn yn oedi'r cyfnod amser tan ein bod wedi derbyn yr holl wybodaeth.

Pan ofynnir am ymweliad safle neu gyfarfod, byddwn yn trefnu dyddiad priodol yn dibynnu ar gymhlethdod y cynllun a faint o waith y bydd angen ei wneud ymlaen llaw. Gall hyn gynnwys unrhyw amser sy'n angenrheidiol ar gyfer cael safbwyntiau gan unrhyw barti arall â buddiant megis y Peiriannydd Priffyrdd, Swyddog Cadwraeth Adeiladau ac ati. Fodd bynnag, ni chaiff unrhyw gyfarfodydd eu cynnal heb gael gweld yr wybodaeth y gofynnwyd amdani ymlaen llaw.

Ein hargymhelliad ni fydd pa swyddogion eraill ddylai fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan gynnwys cynghorwyr arbenigol, a bydd angen talu ffioedd ychwanegol (gweler y Rhestr Taliadau isod).

Ar ôl yr ymweliad safle/cyfarfod, byddwn yn cadarnhau'r cyngor mewn llythyr ffurfiol.

Pe byddai angen cyfarfod arall, byddai cwmpas cyfarfod o'r fath yn cael ei sefydlu ymlaen llaw ynghyd â'r ffi berthnasol y byddai'n rhaid ei derbyn ynghyd ag unrhyw ddogfen berthnasol cyn y cyfarfod dilynol.

Cynhelir cyfarfodydd yn y Swyddfeydd Dinesig, Pen-y-bont ar Ogwr.

Mae gan y Rheolwr Datblygu a Rheolaeth Adeiladau yr hawl i wrthod cais am gyngor cyn gwneud cais pan ystyrir bod hynny'n amhriodol neu'n ddiangen.

# BETH YW'R TALIADAU?



## RHEOLI DATBLYGU CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR

**Canllawiau ar Daliadau Cyn Gwneud Cais –  
Gwasanaeth Statudol Llywodraeth Cymru o 16 Mawrth, 2016  
Gwasanaeth Anstatudol CBS Pen-y-bont ar Ogwr o 13 Mehefin, 2016 – wedi'i ddiweddarau 1 Ebrill, 2019**

Categori/Maint y Datblygiad	Gwasanaeth Statudol LIC – Cyngor Ysgrifenedig yn Unig	Gwasanaeth Anstatudol – Cyngor/Ymateb Ysgrifenedig yn Unig	Cyngor Ysgrifenedig a Chyfarfod (safle neu swyddfa)	Cyngor Ysgrifenedig Ychwanegol a/neu Gyfarfodydd	Amser Ymateb Targed o Ddyddiad yr Ymholiad neu'r Cyfarfod (Diwrnodau)
<b>Cyngor i Ddeiliaid Tŷ parthed: Datblygiad a Ganiateir</b>	-	£40	£50	£25	14
<b>Ymholiadau eraill am Ddatblygiadau a Ganiateir:</b>	-				14
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Datblygiad Amaethyddol a Choedwigaeth</li> <li>• Cynigion gan Weithredwyr Telegyfathrebu</li> <li>• Newidiadau i Ddefnydd tir ac adeiladau</li> <li>• Datblygiad masnachol/diwydiannol</li> <li>• Cynlluniau microgynhyrchu/ynni adnewyddadwy annomestig</li> <li>• Cynlluniau microgynhyrchu/ynni adnewyddadwy domestig</li> <li>• Adeiladau a Defnyddiau Dros Dro</li> </ul>		£50 £50 £50 £50 £50 £25 £25	£75 £75 £75 £75 £75 £50 £50	£50 £50 £50 £50 £50 £25 £25	
<b>Cyngor dylunio i ddeiliad tŷ</b>	£25	£90	Amh. (ymweliad safle wedi'i gynnwys yn y ffi)	£50	21
<b>Chwilio am Hanes Cynllunio</b>	-	£40 fesul llain/safle am geisiadau ers 1996	Amh.	Amh.	21

		£80 fesul llain/safle am geisiadau ers 1976			
<b>Dileu Hawliau Datblygu a Ganiateir</b>	-	£50 fesul llain	Amh.	Amh.	21
<b>Cydymffurfio ag Amodau/Hysbysiadau</b>	-	£50/£150	£100/£300	Amh.	14
<b>Gwaith i Ddiogelu Coed</b>	-	£50	£100	£50	14
<b>Mân Ddatblygiad Amaethyddol neu Goedwigaeth</b>	-	£150	£250	£100	21
<b>Mân Ddatblygiad Masnachol/Newid Defnydd* (hyd at 500 metr sgwâr o arwynebedd llawr gros)</b>	£250	£250	£350	£200	21
<b>Mân Waith i Adeiladau Rhestredig/mewn Ardaloedd Cadwraeth</b>	-	£100	Amh. (ymweliad safle wedi'i gynnwys yn y ffi)	£50	21
<b>Hysbysebion</b>	-	£100	£150	£100	21
<b>Copiau o Hysbysiadau Penderfyniad</b>	-	£15	Amh.	Amh.	7
<b>Copiau o Gynlluniau wedi'u Cymeradwyo</b>		Cynlluniau A4 – £1 fesul dalen Cynlluniau A3 - £2 fesul dalen Cynlluniau A2 - £4 fesul dalen Cynlluniau A1 - £10 fesul dalen Cynlluniau A0 - £20 fesul dalen			
<b>Copiau o Gytundebau Cyfreithiol A.106</b>	-	£10	Amh.	Amh.	7
<b>Copiau o Orchymyn Diogelu Coed</b>	-	£10	Amh.	Amh.	7
<b>Amodau cadarnhau/A.106 wedi'u cyflawni</b>	-	£100	£150	Amh.	14

\* Ffi y cyngor cyn gwneud cais i'w phennu gan Swyddogion Cynllunio ar y cyd â Datblygiad Economaidd e.e. at ddibenion cyflogaeth B1, B2 neu B8



Categori/Maint y Datblygiad	Gwasanaeth Statudol LIC – Cyngor Ysgrifenedig yn Unig	Gwasanaeth Anstatudol – Cyngor/Ymateb Ysgrifenedig yn Unig	Cyngor Ysgrifenedig a Chyfarfod (safle neu swyddfa)	Cyngor Ysgrifenedig Ychwanegol a/neu Gyfarfodydd	Amser Ymateb Targed o Ddyddiad yr Ymholiad neu'r Cyfarfod (Diwrnodau)
Datblygiad ar Raddfa Fwy					
Anheddau newydd/addasu i fod yn 1-2 annedd preswyl	£250	Amh. ymweliad swyddfa wedi'i gynnwys	£350	£100	21
3-4 annedd	£250	Amh. ymweliad swyddfa wedi'i gynnwys	£500	£200	28
5-9 annedd (gan gynnwys Rhwymedigaethau Cynllunio)	£250	Amh. ymweliad swyddfa wedi'i gynnwys	£1000	£300	35
Anedd Menter Wledig	£250	Amh. ymweliad swyddfa wedi'i gynnwys	£600	£250	35
Addasu Ysgubor	£250	Amh. ymweliad swyddfa wedi'i gynnwys	£500	£200	28
Datblygiad Amaethyddol a Choedwigaeth (500-1000 metr sgwâr)	£250	£300	£400	£150	28
Datblygiad Masnachol/Newid Defnydd * (500 – 1000 metr sgwâr)	£250	£750	£850	£250	35
Cynlluniau Ynni Adnewyddadwy ar Raddfa Ddomestig nad yw'n Ddatblygu a Ganiateir**					
- Cynlluniau Hydro ar Raddfa Fach	£250	£250	£350	£100	28
- Paneli Solar/Ffotofoltäig	£250	£250	£350	£100	28
- Un tyrbin hyd at 40 metr at ben y llafn	£250	£500	£600	£200	35

\* Ffi y cyngor cyn gwneud cais i'w phennu gan Swyddogion Cynllunio ar y cyd â Datblygiad Economaidd e.e. at ddibenion cyflogaeth B1, B2 neu B8

\*\* I'w gadarnhau gan y Swyddog Cynllunio ar sail y manylion a ddarparwyd

Categori/Maint y datblygiad	Gwasanaeth Statudol LIC – Cyngor Ysgrifenedig yn Unig	Gwasanaeth Anstatudol – Cyngor/Ymateb Ysgrifenedig yn Unig	Cyngor Ysgrifenedig a Chyfarfod (safle neu swyddfa)	Cyngor Ysgrifenedig Ychwanegol a/neu Gyfarfodydd	Amser Ymateb Targed o Ddyddiad yr Ymholiad neu'r Cyfarfod (Diwrnodau)
Datblygiad Sylweddol (D.S. bydd y cyfarfod cwmpasu cyntaf gyda Swyddogion am ddim)			Uchafswm – y ffi i'w chytuno ar ôl y cyfarfod cwmpasu cychwynnol (Lleiafswm Ffi o £1000)		
<b>10 neu fwy o anheddau (neu 32 dph) gan gynnwys Rhwymedigaethau Cynllunio</b>	£600 < 25 o unedau £1000 > 24 o unedau	Amh. ymweliad swyddfa wedi'i gynnwys Amh. ymweliad swyddfa wedi'i gynnwys.	£2500 £5000	£1000 £2500	35 42
<b>Datblygiad Amaethyddol a Choedwigaeth (&gt; 1000 metr sgwâr)</b>	£600 < 2000 metr sgwâr £1000 > 1999 metr sgwâr	Amh. ymweliad swyddfa wedi'i gynnwys. Amh. ymweliad swyddfa wedi'i gynnwys	£1500 £2500	£500 £1000	35 42
<b>Datblygiad Masnachol/Newid Defnydd * (&gt; 1000 metr sgwâr)</b>	£600 < 2000 metr sgwâr £1000 > 1999 metr sgwâr	Amh. ymweliad swyddfa wedi'i gynnwys Amh. ymweliad swyddfa wedi'i gynnwys	£3000 £5000	£1000 £2500	42 42
<b>Cynlluniau Ynni Adnewyddadwy Masnachol (gan gynnwys EIA)</b>					
- Cynlluniau Hydro	-	Amh. ymweliad swyddfa wedi'i gynnwys	£500	£100	35
- Cynlluniau Gwastraff i Ynni	-	Amh. ymweliad swyddfa wedi'i gynnwys	£5000	£300	42
- Parciau/Ffermydd Solar	-	Amh. ymweliad swyddfa wedi'i gynnwys	£5000	£500	42
- Ffermydd Gwynt	-	Amh. ymweliad swyddfa wedi'i gynnwys	£5000	£750	42
<b>Ennill a Gweithio Mwynau</b>	£600	Amh ymweliad swyddfa wedi'i gynnwys	£5000	£500	42
<b>Datblygiad Gwastraff</b>	£600	Amh ymweliad swyddfa wedi'i gynnwys	£5000	£500	42

\* Ffi y cyngor cyn gwneud cais i'w phennu gan Swyddogion Cynllunio ar y cyd â Datblygiad Economaidd e.e. at ddibenion cyflogaeth B1, B2 neu B8

---

**Esemptiadau**

---

Ymholiadau gan Gyngorau Tref/Cyngorau Cymuned (ac eithrio Datblygiad Masnachol)

Elusennau Cofrestredig (gan gynnwys Cymdeithasau Tai)

Meysydd Gwasanaeth eraill CBS Pen-y-bont ar Ogwr

Grwpiau nad ydynt yn gwneud elw/Cwmnïau Buddiant Cymunedol/Eglwysi ac ati

Cyngor ar gadwraeth – atgyweiriadau strwythurol brys i Adeiladau Rhestredig yn unig

Gwaith sy'n ofynnol i wella cyfleusterau a mynediad ar gyfer pobl sydd wedi'u cofrestru'n anabl (ni fyddai'n destun ffi cais cynllunio)

---

**Cyngor Arbenigol****Cost ychwanegol fesul awr (gan gynnwys cyfarfodydd/ymweliadau safle)**

Ecolegydd CBS Pen-y-bont ar Ogwr

£50

Priffyrdd CBS Pen-y-bont ar Ogwr

£50

Cadwraeth Adeiladau/Treftadaeth CBS Pen-y-bont ar Ogwr

£50

Diogelu'r Cyhoedd CBS Pen-y-bont ar Ogwr

£50

Datblygu Economaidd CBS Pen-y-bont ar Ogwr

£50

Parciau CBS Pen-y-bont ar Ogwr

£50

Draenio Tir/ Systemau Draenio Cynaliadwy CBS Pen-y-bont ar Ogwr

£50

Twristiaeth CBS Pen-y-bont ar Ogwr

£50

---

## **YR HYN Y MAE'R COSTAU YN EI GYNNWYS**

Mae'r ffioedd hyn yn cynnwys costau gweinyddol a'r amser a dreuliwyd yn ymchwilio, asesu, mewn cyfarfod yn ôl yr angen, ac yn llunio ymateb ysgrifenedig.

Mae CThEM wedi cadarnhau drwy Bwyllgor TAW CIPFA y dylid ymdrin â'r gwasanaeth statudol cyn gwneud cais a ddarperir gan Awdurdodau Cynllunio Lleol Cymru fel gweithgaredd nad yw'n fusnes ac sydd y tu allan i gwmpas TAW. Bydd y gwasanaeth anstatudol/yn ôl disgrisiwn yn parhau i fod yn destun TAW ac mae'r rhestr taliadau uchod yn cynnwys TAW.

Ar gyfer datblygiadau sylweddol, cynigir cyfarfod cwmpasu 'am ddim' o hyd at 1 awr. Diben y cyfarfod cwmpasu yw caniatáu i'r datblygwr arfaethedig egluro ac amlinellu ei gynllun ac i'r Awdurdod Cynllunio Lleol nodi'r prif broblemau. Rhoddir rhywfaint o ganllawiau sylfaenol iawn ond ni roddir unrhyw gyngor ansoddol ar y cam hwn. Ar ôl y cyfarfod, bydd y swyddog achos yn darparu amserlen ysgrifenedig yn amlinellu cwmpas y PE, pa Adrannau o'r Cyngor fydd yn cymryd rhan, dadansoddiad o'r gost o ddarparu'r cyngor ffurfiol cyn gwneud cais ac amserlen ddrafft ar gyfer cyfarfodydd/ymatebion. Penderfyniad yr ymgeisydd fydd dewis ymgymryd â'n gwasanaeth PE manylach neu ddefnyddio'r system statudol fwy cyfyngedig.

Bydd nifer a math y staff a fydd yn bresennol yn y cyfarfod cwmpasu cychwynnol yn dibynnu ar natur y datblygiad. Bydd datblygiadau ar raddfa fawr iawn yn cynnwys Rheolwr y Grŵp – Datblygu, y Rheolwr Datblygu a Rheolaeth Adeiladau a/neu'r Rheolwr Cynllunio Datblygu.

Codir tâl am bob prosiect neu safle ar wahân y cyfeirir ato mewn ymholiad ar y gyfradd briodol. Ni cheir rhannu safleoedd yn artiffisial mewn ymgais i ddenu tariff gwahanol. Bydd ceisiadau lluosog yn destun y ffioedd lluosog priodol. Mae gan y Rheolwr Datblygu a Rheolaeth Adeiladau yr hawl i bennu'r ffi. Yn achos unrhyw anghydfod, caiff y mater ei gyfeirio i'r Pennaeth Adfywio a Datblygu a bydd ei benderfyniad yn derfynol. Pan na thelir y ffi briodol o fewn 15 diwrnod gwaith ar ôl cael nodyn atgoffa, ni roddir ymateb.

Byddai'n well gennym pe byddai'r taliad yn cael ei wneud drwy gerdyn credyd drwy ffonio'r adran (Rhif ffôn 01656 643675) lle gellir cymryd y taliad.

## **SYLWER**

Cynigir ein gwasanaeth cyngor cyn gwneud cais i ddatblygwyr ac ymgeiswyr unigol sy'n ddeiliaid tŷ. Yn y naill achos neu'r llall ceir rhai pwyntiau cyffredinol y dylech eu nodi cyn i chi gysylltu â ni:

- Ceisiwch gysylltu â ni ar y cyfle cynharaf posibl yn eich prosiect;
- Gwnewch rywfaint o ymchwil cychwynnol eich hun gan gynnwys darllen ein nodiadau ar sut i gyflwyno cais dilys;
- Gofynnwch i'r rhai hynny y bydd eich cynigion yn effeithio arnynt am eu barn;

- Cofiwch po fwyaf o wybodaeth y byddwch yn ei rhoi inni, y mwyaf cywir a defnyddiol y gall ein hymateb fod – cyngor amwys yn unig y gellir ei roi i gynigion amwys. Yr hyn fydd yn allweddol i lwyddiant y gwasanaeth hwn yw eich bod yn rhoi digon o wybodaeth inni ymlaen llaw – nodir hyn yn fanylach yn y dogfennau a nodir uchod; ac
- Ar faterion cymhleth, byddwch yn barod i geisio cymorth proffesiynol preifat – ni fwriedir i'n gwasanaeth fod yn ddewis amgen i gyflogi ymgynghorwyr proffesiynol.

Byddwn bob amser yn gwneud ein gorau i roi'r cyngor gorau y gallwn i chi ar sail yr wybodaeth sydd wrth law. Fodd bynnag, mae angen i chi fod yn ymwybodol na fydd unrhyw gyngor a roddir gan Swyddogion y Cyngor mewn ymateb i ymholiadau cyn gwneud cais yn benderfyniad ffurfiol gan y Cyngor fel Awdurdod Cynllunio Lleol. Rhoddir unrhyw safbwyntiau neu farn yn ddiffuant, a hyd eithaf ein gallu ond heb amharu ar ddiueddrwydd ystyriaeth ffurfiol o unrhyw gais cynllunio.

Dim ond ar ôl inni ymgynghori â phobl leol, ymgynghoreion statudol ac unrhyw bartïon eraill â buddiant y gellir gwneud y penderfyniad terfynol ar unrhyw gais y gallech chi wedyn ei gyflwyno. Gwneir y penderfyniad gan y Pwyllgor Rheoli Datblygiadau neu gan swyddogion cynllunio a bydd yn seiliedig ar yr holl wybodaeth sydd ar gael iddynt ar y pryd.

Dylech felly fod yn ymwybodol na all swyddogion warantu'r penderfyniad ffurfiol terfynol a wneir ar eich cais/ceisiadau. Fodd bynnag, caiff unrhyw gyngor cyn gwneud cais a ddarparwyd ei ystyried yn ofalus wrth wneud penderfyniad neu argymhelliad ar gais; ar yr amod y gall unrhyw amgylchiadau a gwybodaeth newid neu ddod i'r amlwg a allai newid y sefyllfa honno.

Sylwer y bydd y pwysoliad a roddir i gyngor cyn gwneud cais yn lleihau dros amser, a gellir ei ddisodli gan ganllawiau newydd gan lywodraeth neu bolisiâu cynllunio newydd.

Nid yw'r ffioedd yn ad-daladwy.